
Canllaw i grynodeb o adroddiad y **Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol** ar ddata 2024

**NNAP**
**National Neonatal Audit Programme**

# Gofal eich baban

## Mesur safonau a gwella gofal i fabanod newydd-anedig

**Hydref 2025**



Roedd ar Gracielle angen help i anadlu, ond roeddwn yn dal i allu ei bwydo a rhoi gofal cangarŵ iddi. Rai wythnosau'n ddiweddarach, mae Gracielle bellach yn anadlu ac yn bwydo heb gymorth. Mae hyn i annog pawb a dweud y bydd pethau'n gwella.

Llun trwy garedigrwydd Mabel Micah

RCPCH Audits

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
Leading the way in Children's Health



Mae Emmie yn efaill MCDA. Cafodd beth anhawster wrth gael ei geni, ac fe aed â hi'n syth i'r uned gofal dwys i fabanod newydd-anedig. I ddechrau, gwahanwyd Emmie oddi wrtha'i a'i hefeilles. Yr oedd staff yr uned babanod newydd-anedig yn wych, yn ein hannog i afael yn Emmie a'i chysuro gymaint ag oedd modd tra'r oedd yn cael ei thrin.



Gallodd Emmie symud i ofal trosiannol a chael cysur gan ei chwaer-efeilles Esme. Roedd ar Esme ac Emmie angen tiwbiau bwydo ar ôl eu geni wedi 36 wythnos yn pwyso 4lb 8os a 4lb 15os.




Emmie'n iach ac yn hapus yn 18 mis oed, a'r tîm pediatrig newydd ddweud fod popeth yn iawn!

Pob llun ar y dudalen hon trwy garedigrwydd Rhianne Collings

# Beth yw gofal i fabanod newydd-anedig?

Bydd ar ryw **1 o bob 11** o fabanod angen cael eu derbyn i uned gofal newydd-anedig am iddynt gael eu geni'n gynnar, â phwysau isel adeg eu geni, neu am eu bod yn sâl ac angen gofal a thriniaeth arbenigol.

Efallai y bydd ar eich baban angen help i anadlu neu fwydo. Weithiau, gall babanod fod â haint neu gyflyrau meddygol eraill sydd angen eu trin. Gall eich baban aros mewn uned i rai newydd-anedig am ddyddiau, wythnosau neu fisoedd, yn dibynnu ar ei anghenion. Cewch eich annog i gymryd rhan i ofalu am eich baban o'r cychwyn cyntaf un.




## Derbyn i unedau i'r newydd-anedig

Bydd ar ryw **1 o bob 11** (neu 59,178 o 640,439) o fabanod a enir yn Lloegr, yr Alban a Chymru bob blwyddyn angen gofal arbenigol i'r newydd-anedig mewn ysbyty.

# Beth yw'r Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol?

**Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am ansawdd y gofal a ddarperir gan unedau babanod newydd-anedig. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) yn gwneud hyn trwy'r Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol (NNAP).**

Mae'r Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol yn helpu unedau i'r newydd-anedig i roi gwell gofal i fabanod sydd angen triniaeth arbenigol.

**Rydym yn edrych ar yr isod:**

- A yw babanod yn derbyn gofal cyson o safon uchel.
- A gafodd babanod y gwiriadau iechyd a argymhellir er mwyn leihau'r risg o gymhlethdodau.
- Pa mor dda mae babanod yn gwneud wedi'r gofal hwn.

Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am ofal eich baban i helpu unedau i'r newydd-anedig yn Lloegr, yr Alban ac Ynys Manaw i wella gofal a chanlyniadau i fabanod eraill. I helpu gyda hyn, byddwn yn casglu gwybodaeth am fabanod sy'n derbyn gofal newydd-anedig.

rhoi gwybodaeth am eich baban ar system gofnodi electronig ddiogel o'r enw BadgerNet. Mae pob uned i'r newydd-anedig yn rhannu gwybodaeth o'r cofnodion electronig hyn gyda thîm prosiect y Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol (NNAP) yn yr RCPCH, trwy brosesydd arall, System C, sy'n rheoli system BadgerNet.

## Dewch i wybod mwy

I wybod mwy am yr archwiliad, sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon, a'ch hawliau chi, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd:

**www.rcpch.ac.uk/your-babys-information**

Neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn.

NNAP
National Neonatal Audit Programme




**Ein merch hyfryd; yn derbyn awyr, wedi'i pharlysu a'i thawelu. Yn dawel yn brwydro am ei heinioes.**

Llun trwy garedigrwydd Aimee ac Alexander Nicholls

**Ganed Betsy ar 25+5 yn pwyso 820g a threuliodd amser mewn dwy uned wahanol. Dyma un o'r lluniau cyntaf un ohoni. Mae'n eithaf arbennig edrych yn ôl gan ei fod yn ein hatgoffa pa mor bell y daethom.**

Llun trwy garedigrwydd Leah a Kev Brier



# Ar ba feysydd gofal y mae'r NNAP yn canolbwyntio?

**Mae data'r NNAP yn ymdrin â phum maes o ofal am fabanod cynamserol a sâl, pob un â chwestiynau am pa mor dda mae'r gofal yn cael ei roi.**

Dewiswyd y rhain gan grŵp o arbenigwyr mewn gofal i'r newydd-anedig, oedd yn cynnwys nyrsus, meddygon a rhieni oedd â phrofiad o ofal i'r newydd-anedig. Partneriaeth rhieni mewn gofal yw un o'r pum maes y mae'r NNAP yn canolbwyntio arnynt. Mae'r mesurasu yn y maes gofal hwn yn canoli ar fwydo â llaeth y fron ac ymwneud rhieni â'r tîm sy'n gofalu am eu babanod newydd-anedig. Mae'r NNAP yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni sydd â phrofiad o ofal dros y newydd-anedig er mwyn adfyfyrio ynghylch y mesurau hyn.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio mwy am y pum maes gofal ac yn dangos pa mor dda mae unedau yn gwneud ar hyd Lloegr, yr Alban a Chymru ar gyfer pob un o fesurau'r archwiliad. Mae hefyd yn esbonio beth allwch chi wneud nesaf os oes gennych faban yn derbyn gofal newydd-anedig.




**Y brawd mawr yn gwylio dros ei chwaer newydd-anedig sy'n derbyn awyr ac yn mwytho ei choes wrth iddi dderbyn triniaeth i arbed ei bywyd. Gyda pheiriannau ym mhobman, mae ei bresenoldeb tawel yn gysur yn y tryblith, ac y mae eisoes yn ei gwarchod.**

Llun trwy garedigrwydd Aimee ac Alexander Nicholls

## Dewch i wybod mwy

Os ydych am wybod mwy am sut y mae uned benodol i'r newydd-anedig yn gwneud, gallwch fynd at NNAP Online ac edrych ar y posteri canlyniadau, yn: **https://www.rcpch.ac.uk/resources/nnaponline-report-data** neu sganio'r cod QR:

# Deilliannau gofal i'r newydd-anedig

**Mae rhan hon yr archwiliad yn canoli ar rai o'r deilliannau meddygol a all ddigwydd i fabanod a enir yn gynamserol neu'n sâl.**

## Marwolaethau


Mae'n bwysig ein bod yn monitro cyfran y babanod a dderbynnir i ofal newydd-anedig a sydd, gwaetha'r modd, yn marw cyn iddynt fynd adref, er mai isel iawn yw'r niferoedd hyn. Mae hyn yn caniatáu i wasanaethau i'r newydd-anedig adolygu nifer y babanod sy'n marw ac achosion marwolaeth. Y nod yw, trwy rannu gwersi ac ambell waith newid arferion, y bydd nifer y marwolaethau yn gostwng.




**Marwolaethau**

Bu **6.4%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd ac a dderbyniwyd i ofal i'r newydd-anedig farw cyn gadael yr ysbyty neu 44 wythnos o oedran ôl-mislif.

## Dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD)




**Dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD)**


Datblygodd **39.8%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD).

Mae ysgyfaint babanod a enir yn gynnar iawn yn aml heb ddatblygu ac efallai y bydd arnynt help gyda'u hanadlu.

Gall geni cynamserol arwain at heriau cyson gydag anadlu. Mae'n bosib y gall defnyddio awyrydd, er ei fod yn aml yn ddarn hanfodol o offer, niweidio'r ysgyfaint a chynyddu'r risg o heintiadau ar y frest. Dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD) yw'r enw ar y cyflwr hwn, sydd hefyd yn cael ei alw yn glefyd cronig yr ysgyfaint.

# Enterocolitis sy'n madru (NEC)

Mae enterocolitis sy'n madru (NEC) yn gyflwr difrifol a all ddigwydd wedi geni cynamserol. Mae'n achosi llid yn y perfedd, sy'n ei gwneud yn anodd i fabanod gael eu bwydo â llaeth, ac weithiau bydd angen llawdriniaeth. Mae babanod ag NEC yn aml yn gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod estynedig. Yn drist iawn, nid yw dros 20% o fabanod ag NEC yn goroesi, a gall y rhai sy'n goroesi wynebu oedi gyda'u datblygiad a phroblemau tymor-hir gyda bwydo a gweithrediad y coluddion.





**Enterocolitis sy'n Madru (NEC)**

Datblygodd **5.1%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd NEC.

# Heintio llif y gwaed (BSI)

**Heintio llif y gwaed (BSI)**

Cafodd **5.1%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd un neu fwy digwyddiad o BSI.




Mae babanod sy'n sâl neu a aned yn gynamserol yn wynebu mwy o risg o ddal heintiadau, hyd yn oed rhai nad ydynt fel arfer yn niweidio pobl. Gall yr heintiadau hyn olygu eu bod yn aros yn hwy yn yr uned i'r newydd-anedig, yn cynyddu'r risg o farw ac weithiau yn effeithio ar ddatblygiad tymor-hir y babanod.


I helpu i ostwng y risg o heintio, mae'n hanfodol fod pob gweithiwr iechyd proffesiynol, rhieni ac ymwelwyr yn dilyn arferion da o ran atal a rheoli heintiadau ar yr uned i'r newydd-anedig.

# Anaf cyn-geni i'r ymenydd (IVH a cPVL)

Gall babanod a enir yn gynnar iawn brofi anaf i'r ymenydd, a achosir weithiau gan waedu. Mae canlyniadau'r anafiadau hyn yn amrywio, yn dibynnu'n rhannol ar ddifrifoldeb yr anaf.


Mae'r NNAP yn adrodd am ddau fath o anaf i'r ymenydd – ffurfiau mwy difrifol o waedu mewnfentriglaidd (IVH) a lewcomalacia perifentriglaidd systig (cPVL).

Trwy ddeall faint o fabanod sy'n cael anaf i'r ymenydd, gall timau unedau newydd-enedigol geisio lleihau'r niferoedd.




**Anaf cyn-geni i'r ymenydd – Gwaedu mewnfentriglaidd (IVH)**

Cafodd **6.4%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd IVH.




**Anaf cyn-geni i'r ymenydd – lewcomalacia perifentriglaidd systig (cPVL)**

Cafodd **3%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd cPVL.



**Cafodd Bailey ddiagnosis o hydroceffalws difrifol, a dywedwyd wrthym beth oedd y gwaethaf allai ddigwydd; bu'n rhaid cael sganiau bob wythnos. Fe wnaethom lwyddo i gyrraedd 32+6 wythnos o feichiogrwydd cyn y bu'n rhaid i mi gael triniaeth cesaraidd. Fe arhosodd gyda'r staff rhyfeddol am 4 wythnos. Babi gwyrthiol oedd e am nad oedd i fod i oroesi. Y llun hwn oedd y tro cyntaf i Bailey wenu. Daliwch i obeithio.**


Llun trwy garedigrwydd Louise McKay

# Y gofal amenedigol gorau

**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar ymyriadau cyn ac yn ystod geni, neu'n syth wedyn, a all wella canlyniadau i fabanod a enir yn gynamserol neu'n sâl.**

## Steroidau cynenedigol


Mae canllawiau[1] yn argymell bod mamau sy'n esgor ar faban wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd yn derbyn cwrs llawn o steroidau sy'n para 24 awr yn yr wythnos cyn iddynt esgor, er mwyn cefnogi datblygiad gweithrediad ysgyfaint eu baban. Mae steroidau cynenedigol yn helpu i leihau anawsterau anadlu ac thrwy hyn y risg o farwolaeth a phroblemau difrifol eraill, megis gwaedu i'r ymenydd.




**Steroidau cynenedigol**

Derbyniodd **51.8%** o famau a esgorodd ar faban wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd gwrs llawn o corticosteroidau yn yr wythnos cyn iddynt esgor.

## Magnesiwm sylffad cynenedigol




**Magnesiwm sylffad cynenedigol**

Derbyniodd **86.7%** o famau a esgorodd ar faban wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd fagnesiwm sylffad yn y 24 awr cyn esgor.


Mae rhoi magnesiwm sylffad i famau sydd mewn perygl o esgor ar faban yn gynamserol iawn yn lleihau'r siawns y bydd eu baban ynd atblygu parlys yr ymenydd, cyflwr sy'n para oes ac yn effeithio ar symud a chy-dgordio, o 32%.

Mae canllawiau[1] yn argymell y dylid rhoi magnesiwm sylffad i bob menyw sy'n esgor ar faban wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd yn ystod y 24 awr cyn iddynt esgor.

# Genedigaeth mewn canolfan gydag NICU

Mae gan fabanod a enir yn gynnar iawn fwy o risg o gymhlethdodau difrifol, megis anaf i'r ymenydd, dysplasia broncoysgyfeiniol ac enterocolitis sy'n madru. Felly, dylai'r babanod hyn gael eu geni mewn ysbyty sydd ag uned gofal dwys i'r newydd-anedig (NICU).


Mae NICU yn rhoi'r lefel uchaf o ofal, a hwy sydd yn y lle gorau i ofalu am y babanod hyn. Awgryma tystiolaeth fod babanod cynamserol iawn yn cael gwell canlyniadau os gofelir amdanynt mewn NICU o'r adeg y cânt eu geni.




**Genedigaeth mewn canolfan gydag NICU**

Cafodd **80.7%** o fabanod a aned wedi llai na 27 wythnos o feichiogrwydd neu oedd yn pwyso dan 800 gram, neu a aned mewn genedigaeth luosog wedi llai na 28 wythnos, eu geni mewn gwasanaeth mamolaeth ar yr un safle ag NICU dynodedig.

# Oedi cyn clampio llinyn y bogel




**Oedi cyn clampio llinyn y bogel**

Clampiwyd llinyn bogel **73.5%** a fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd un funud neu fwy wedi eu geni.


Ystyr oedi cyn clampio llinyn y bogel yw aros am o leiaf 60 eiliad wedi'r enedigaeth cyn campio llinyn y bogel. Dengys ymchwil fod gwneud hyn yn lleihau'r risg o farwolaeth mewn babanod cynamserol o bron i draean[2].

Mewn rhai amgylchiadau prin, nid yw oedi cyn clampio llinyn y bogel yn briodol, ond gellir ei wneud i'r rhan fwyaf o fabanod. Dyma'r dewis gorau, felly, hyd yn oed os oes ar eich baban angen help i anadlu.

# Tymheredd adeg derbyn

Mae cysylltiad rhwng tymheredd isel adeg derbyn gyda salwch a marwolaeth mewn babanod cynamserol. Mae tymheredd isel (neu hypothermia) yn gyflwr y gellir ei atal mewn babanod newydd-anedig.

Mae'r mesur hwn gan yr NNAP yn edrych i weld pa mor llwyddiannus yw unedau i'r newydd-anedig o ran gofalu bod gan fabanod cynamserol iawn ddarlleniad tymheredd cyntaf normal (rhwng 36.5 a 37.5°C) o fewn awr o gael eu geni.




### Tymheredd adeg derbyn

Yr oedd gan **77.6%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd dymheredd cyntaf adeg derbyn rhwng 36.5–37.5°C ac a fesurwyd o fewn awr o gael eu geni.



**Ganed Kane wedi 28 wythnos, ac fe dreuliodd 9 wythnos yn yr NICU. Cawsom ein taflu i fyd nad oeddem yn gwybod oedd yn bodoli. Yr oedd tîm yr uned i'r newydd-anedig yn wych; buom yn rhan o bob agwedd o ofal Kane ac yr oedd hyn yn cynnwys ei frodyr a'i chwiorydd hŷn hyd y bo modd. Dyma fe ein gwyrth fach ni nawr, yn 6 mis oed, yn iach ac yn ffynnu.**


Llun trwy garedigrwydd Amy ac Imran Southam

# Bwydo â llaeth y fron yn 2 ddydd cyntaf eu bywyd

Mae llaeth cynnar y fron, a elwir yn colostrwm, yn llesol i iechyd babanod ac fe all hefyd help i sefydlu bwydo o'r fron yn y tymor hwy.

Efallai na fydd babanod a aned yn gynamserol neu'n sâl yn barod i gael eu bwydo o fron y fam yn syth. Mae mamau'n cael eu hannog i odro llaeth i'w babanod o fewn yr oriau cyntaf wedi'r geni ac mae modd defnyddio'r llaeth hwn i ofalu am y geg neu ei roi trwy diwb bwydo. Mae'n bwysig fod gwasanaethau i'r newydd-anedig yn rhoi'r gefnogaeth iawn i deuluoedd ar yr amser iawn.

Fel rhan o sawl mesur sy'n edrych ar y gofal a roddir i famau a babanod cyn ac yn ystod geni ac yn syth wedyn, mae'r NNAP yn adrodd am faint o fabanod sy'n derbyn llaeth eu mamau eu hunain o fewn deuddydd cyntaf eu bywydau.




**Bwydo â llaeth y fron am 2 ddydd cyntaf eu bywyd**

Derbyniodd **66.8%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd laeth eu mamau am 2 ddiwrnod cyntaf eu bywydau.

**Os nad yw e'n fawr, mae e'n ddigon! Archie'n cael ei fwydo o'r fron am y tro cyntaf mewn gofal arbennig wedi gadael gofal dwys. Fe'i ganed wedi 28 wythnos, yn pwyso 800 gram.**

Llun trwy garedigrwydd Ashley Dere



**Roedd bwydo Enzo â thiwb yn golygu ein bod yn gallu rhoi iddo'r symiau bach o golostrwm roeddwn i'n gynhyrchu, hyd yn oed pan oedd ar diwb anadlu. Peth mor fychan, ond roedd yn teimlo fel ffordd rymus o'i helpu i frwydro o'r cychwyn cyntaf un.**

Llun trwy garedigrwydd Kelly McPherson



# Partneriaeth rhieni mewn gofal

**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar sut y gall timau sy'n edrych ar ôl babanod weithio'n effeithiol gyda theuluoedd babanod a enir yn gynamserol neu'n sâl.**

## Bwydo â llaeth y fron trwy gydol yr arholiad yn yr uned i'r newydd-anedig


Mae babanod cynamserol yn elwa o laeth o fron eu mamau eu hunain am ei fod yn haws i'w dreulio, yn eu helpu i brifio acyn eu gwarchod rhag heintiadau. Mae bwydo o'r fron hefyd yn ffordd dda o gael cyswllt croen ar groen gyda'ch baban ac i ddod i adnabod eich gilydd.

Mae'n bwysig fod staff ar yr uned i'r newydd-anedig yn rhoi cefnogaeth ymarferol i chi neu'ch cymar i'ch helpu i odro llaeth, i helpu gyda bwydo o'r fron, ac i sefydlu trefn o fwydo erbyn i chi fod yn barod i fynd adref. Gall cefnogaeth ddod gan arbenigwr mewn bwydo babanod, nyrs i'r newydd-anedig, neu fydwraig.

Mae'r NNAP yn adrodd am gyfran y babanod a aned yn gynamserol sy'n derbyn unrhyw faint o laeth eu mamau ar ddiwrnod 14 o'u bywydau, a phan gânt eu rhyddhau o'r uned i'r newydd-anedig.


### Beth allwch chi wneud?

Holwch staff yn eich uned am wybodaeth am laeth y fron, sut y gallant eich cefnogi i odro llaeth ac i fwyo o'r fron, ac am gyngor am fudiadau eraill sy'n cynnig cymorth.




**Bwydo a llaeth y fron ar 14eg dydd o fywyd**

Derbynioddd **80.8%** o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd laeth eu mam ar eu 14eg dydd o fywyd.





**Bwydo â llaeth y fron adeg gadael**

Derbyniodd 65.8 % o fabanod a aned wedi llai na 34 wythnos o feichiogrwydd laeth eu mam adeg gadael.

# Ymgynghori â rhieni ymhen 24 awr

Mae'n bwysig fod teuluoedd yn deall ac yn rhan o ofalu am eu baban. Gall dwyn rhieni i mewn yn ymarferol i ofalu a gwneud penderfyniadau wella canlyniadau i fabanod. Mae'r NNAP yn edrych i weld a siaradodd uwch-aelod o'r tîm i'r newydd-anedig â'r rhieni o fewn y 24 awr cyntaf i'w baban gael ei dderbyn.

Mae'r ymgynghoriad cyntaf yn gyfle i rieni ffurfio perthynas â'r uwch-aelod o'r tîm gofalu. Gall rhieni holi cwestiynau a gall yr aelod o'r tîm ddod i wybod am y teulu, eu hanghenion a'u dewisiadau.




## Ymgynghori o fewn 24 awr

Derbyniodd **94.6%** o rieni ymgynghoriad a ddogfennwyd gan uwch-aelod o'r tîm i'r newydd-anedig o fewn 24 awr o dderbyn.

## Beth fedrwch chi wneud


Os ydych yn teimlo na chawsoch ymgynghoriad feel cynnar ag aelod o'r tîm i'r newydd-anedig, gallwch ofyn i nyrs eich baban drefnu un. Yn y this cyfarfod hwn, gallwch holi am sut i weithio mewn partneriaeth gyda'r tîm i'r newydd-anedig i ofalu am eich baban.

Cofiwch, gallwch ofyn am gyfarfod gydag uwch-aelod o'r tîm i'r newydd-anedig ar unrhyw adeg, os cawsoch un neu beidio o fewn 24 awr o dderbyn eich baban i'r uned i'r newydd-anedig.

# Cynnwys rhieni ar rowndiau ward y meddygon ymgynghorol

Gall gofal dwys i'r newydd-anedig fod yn straen ar fabanod a rhieni. Mae'n bwysig fod teuluoedd yn deall ac yn rhan o ofalu am eu baban gan y gall hyn wella canlyniadau i fabanod.

Gall cynnwys rhieni ar rowndiau ward gyda meddygon ymgynghorol, sy'n digwydd yn rheolaidd ar unedau i'r newydd-anedig, helpu i ddatblygu partneriaeth wrth gynllunio gofal rhwng rhieni a'r tîm i'r newydd-anedig.




## Cynnwys rhieni ar rowndiau ward meddygon ymgynghorol

Mewn **36%** o ddyddiau gofal babanod, cafwyd rownd ward dan arweiniad meddyg ymgynghorol oedd yn cynnwys o leiaf un rhiant.



**Bath cyntaf un Shay, wyth wythnos wedi ei eni.**

Llun trwy garedigrwydd Leighsa Boyd-Roarty

## Beth allwch chi wneud?

Dewch i wybod pryd mae'r rowndiau ward ward gyda'r meddyg ymgynghorol yn digwydd fel arfer. Os bydd yn anodd i chi ymuno â'r tîm, gallwch ofyn i aelod o'r tîm i'r newydd-anedig gyflwyno neu rannu gwybodaeth benodol am eich baban yn ystod rownd y ward.

# Staffio gan nyrsus i'r newydd-anedig


**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar holi a oes digon o nyrsus yn gweithio ar unedau i'r newydd-anedig er mwyn sicrhau y gofelir yn effeithiol am y babanod.**

## Staffio gan nyrsus i'r newydd-anedig

Mae cael digon o nyrsus i'r newydd-anedig i ofalu am fabanod ar eu huned yn wirioneddol bwysig er mwyn sicrhau bod ansawdd y gofal yn uchel, bod cefnogaeth ar agel i rieni, a bod y canlyniadau i fabanod yn dda.

Mae canllawiau cenedlaethol[3,4,5] sy'n gosod allan faint o nyrsus sydd eu hangen i bob shifft, yn dibynnu ar nifer y babanod maent yn gofalu amdanynt a pha mor gymhleth yw anghenion y babanod hynny.

Mae'r NNAP yn adrodd am sawl shifft sydd a digon o nyrsus i ofalu am y babanod yn yr uned i'r newydd-anedig, ar sail y canllawiau hyn.




### Staffio gan nyrsus i'r newydd-anedig

Yr oedd gan **81.5%** o shifftiau nyrsio y niferoedd staff oedd yn cyfateb i'r canllawiau a manyleb y gwasanaeth.

# Prosesau gofal

**Mae'r rhan hon o'r archwiliad yn canolbwyntio ar ganfod a yw babanod a enir yn gynnar neu yn sâl yn cael y sgrinio a'r apwyntiadau dilynol angenrheidiol.**


## Retinopatheg cynamseroldeb

Mae retinopatheg cynamseroldeb (ROP) yn gyflwr sy'n effeithio ar bibelli gwaed yn y rhan o'r llygad o'r enw y retina. Os genir baban yn gynamserol iawn, gall y pibelli gwaed hyn ddechrau tyfu'n annormal, gan achosi ROP.

Gall canfod a thrin ROP cyn iddo ddifrifoli leihau'r risg o golli golwg.

Mae canllaw cenedlaethol6 sy'n dweud wrth wasanaethau i'r newydd-anedig pa fabanod ddylai gael eu gwirio am ROP, a phryd y dylid sgrinio am y tro cyntaf.

Mae'r NNAP yn edrych i weld pa mor dda y mae unedau i'r newydd-anedig yn wneud o ran sgrinio'r babanod hyn ar yr amser iawn.




### Sgrinio am retinopatheg cynamseroldeb (ROP)

Cafodd **80%** o fabanod a aned wedi llai na 31 wythnos o feichiogrwydd neu'n pwyso llai na 1501g adeg eu geni eu sgrinio gyntaf am ROP yn ôl y canllaw.

## Beth allwch chi wneud?

Os oes angen sgrinio eich baban am ROP, dewch i ganfod pryd y bydd hyn yn digwydd.

Ios bydd eich baban yn gadael cyn y sgrinio olaf, gwnewch yn siwr fod gennych apwyntiad fel claf allanol mewn clinig llygaid cyn mynd â'ch baban adref er mwyn gofalu na fyddwch yn colli'r apwyntiad hwn.

Gallwch ddod i wybod mwy trwy ddarllen y Wybodaeth am Sgrinio ar gyfer Retinopatheg Cynamseroldeb i Rieni a Gofalwyr, ar gael yn: **www.rcpch.ac.uk/resources/ screening-retinopathy-prematurity-information-parents-carers**

# Cefnogaeth anymyrrol i anadlu

Mae dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD) yn glefyd ar yr ysgyfaint sy'n effeithio ar fabanod a enir yn gynamserol. Un ffactor sy'n cyfrannu ar ddatblygu BPD yw'r math o gefnogaeth anadlu a roddir i fabanod.


Gall darparu cefnogaeth anymyrrol i anadlu, fel Pwysedd Positif Parhaus ar y Llwybr Anadlu (CPAP), yn hytrach na defnyddio awyru mecanyddol trwy diwb endodraceol leihau'r risg o BPD.

Mae'r NNAP yn edrych i weld faint o fabanod sy'n derbyn cefnogaeth anymyrrol i anadlu yn unig yn ystod 7 diwrnod cyntaf eu bywydau.



**Efallai bod Tate yn fach, ond mae'n ddewr.**

Llun trwy garedigrwydd Gemma Bratley




**Cefnogaeth anymyrrol i anadlu**

Derbyniodd **51.7%** o fabanod a aned wedi llai na 32 wythnos o feichiogrwydd gefnogaeth anymyrrol i anadlu yn unig am saith diwrnod cyntaf eu hoes.

# Dilyniant meddygol yn ddwyflwydd oed

Mae'n bwysig fod pediatrydd neu feddyg arbenigol a hyfforddwyd i ofalu am blant a babanod yn gwirio datblygiad babanod a enir naill ai yn gynamserol iawn neu'n sâl wedi iddynt adael yr uned i'r newydd-anedig. Mae canllaw cenedlaethol 7 sy'n dweud wrth wasanaethau i'r newydd-anedig pryd a sut y dylid gwneud hyn.

Mae'r NNAP yn edrych i weld a oes ymgynghoriad dilynol wedi ei ddogfennu yn ddwyflwydd oed i fabanod a anwyd wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd.

Mae babanod a enir yn gynamserol yn fwy tebygol o gael problemau datblygiadol na babanod a enirs wedi beichiogrwydd cyflawn. Mae'n bwysig fod y sawl sy'n gofalu am fabanod cynamserol yn gwybod sut mae'r babanod yn datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn, fel bod modd rhoi unrhyw gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol ar waith.




## Beth allwch chi wneud?

Cadwch mewn cysylltiad â'r uned i'r newydd-anedig wedi i chi adael, a dod i wybod pryd a lle y cynhelir yr apwyntiadau dilynol. Bydd mynychu pob apwyntiad dilynol yn golygu y cewch dawelwch meddwl am sut mae eich baban yn datblygu, a chael unrhyw gefnogaeth y gall fod ar eich baban ei angen.

### Dilyniant yn ddwyflwydd oed

Derbyniodd **77.9%** o fabanod na aned wedi llai na 30 wythnos o feichiogrwydd ddilyniant meddygol ar yr oedran o ddwyflwydd wedi'i gywiro o ran cyfnod cario (ystod oedran derbyniol o 18-30 mis wedi'i gywiro o ran cyfnod cario).

# Cydraddoldeb gofaql i'r newydd-anedig

Am y tro cyntaf eleni, edrychodd yr NNAP i weld a oes unrhyw wahaniaethau yn y modd y gofelir am deuluoedd o wahanol ethnigrwydd.

Mae'n bwysig i ni wybod a yw gofal a chanlyniadau yn wahanol rhwng gwahanol grwpiau ethnig er mwyn gallu cymryd camau i sicrhau fod pawb yn derbyn yr un gofal o ansawdd uchel.

Er mwyn i hyn ddigwydd, efallai y bydd angen gwneud newidiadau yn lleol gan ysbyty unigol, neu yn genedlaethol gan lywodraethau neu sefydliadau eraill.

Mae'r NNAP yn rhannu'r data hwn gyda gwasanaethau i'r newydd-anedig fel y gallant weld a ysynt yn cyflwyno gofal yn gyfartal yn eu hysbytai, ynteu a oes angen iddynt wneud newidiadau i ofalu ei fod yn gyfartal yn y dyfodol.



**Mae'r llun hwn yn dangos chwaer fawr yn darllen stori i'w chwaer fach. Gwyddom am bwysigrwydd darllen i helpu datblygiad ein baban. Mae'n fater i'r teulu cyfan.**

Llun trwy garedigrwydd Mabel Micah



**Daethom i fyd o synau, gwifrau, a gweddiau tawel. Bob dydd, dysgodd Mateo gryfder i ni heb eiriau. Fe wnaethom ddysgu bod gobaith yn fychan bach, ond yn gryf. Nid dim ond lle oedd yr NICU– dyma lle tyfodd ein calonnau yn ddigon cryf i'w gario adref.**

Llun trwy garedigrwydd Sophie Ferreira



Pan ryddhawyd Tejveer ac Agamjot o'r ysbyty, arferem ymweld yn aml â'r ward i'r newydd-anedig fel teulu i dreulio amser gydag Balraaj. Gwyliodd Mami Dadi yn cael amser facetime gyda'i deulu yn Punjab, India. Pwy fuasai wedi meddwl y byddai ein tripledi 828g, 1.3kg ac 1.5kg wedi cyrraedd pob un o'u cerrig milltir yn 2 oed?



Maent wrth eu bodd yn rhedeg yn yr awyr iach, fel bod mami a dadi yn rhedeg ar eu holau. Yr ydym mor falch o'n bechgyn hyfryd.

Lluniau trwy garedigrwydd
Madeleine a Baljit Singh



Roedd angen dadebru Rayvenn-Rae pan aned hi, a chafodd ddiagnosis o gyflwr genetig prin, distal trisomy 10. Bu'n rhaid iddi gael llawdriniaeth agored ar y galon yn 9 mis oed i drwsio tetralogaeth Fallot a DORV yn llawn, ac ar waethaf y cychwyn caled a gafodd mewn bywyd, mae'n gwneud yn rhyfeddol o dda.



Mae'n ddwyflwydd oed bellach, yn hapus ac yn ffynnu ar waethaf popeth. Yr ydym mor falch o'i chryfder a'i gwytnwch, ein merch unigryw dlws!

Lluniau trwy garedigrwydd Zoe Mitchell





**Mae'r llun cyntaf yn dangos Nel pan ddaeth i'r NICU am y tro cyntaf wedi ei geni ar ôl 28 wythnos o feichiogrwydd. Yr ail lun yw Nel yn ddwyflwydd.**

Lluniau trwy garedigrwydd
Elin Burton-Jones





**Roedd Brodie 8 wythnos yn gynamserol; fe dreuliodd 6 wythnos yn yr NICU. Ar waethaf y rhybuddion y byddai ganddo anawsterau dysgu wrth brifio, mae bellach yn ffynnu.**

Lluniau trwy garedigrwydd Hayley Gardyj

# Canlyniadau NNAP eich uned

Mae'r wybodaeth a roddir yn y canllaw hwn yn disgrifio'r canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pob uned yn Lloegr, yr Alban, Cymru ac Ynys Manaw.

Gallwch edrych am bosteri NNAP eich uned, gan ein bod yn annog timau i'r newydd-anedig i'w harddangos. Gallwch hefyd eu gweld yn:


**www.rcpch.ac.uk/resources/nnap-online-report-data**


Mae enghreifftiau o'r ddau boster isod.

Mae'r posteri hyn yn dangos canlyniadau NNAP eich uned, canlyniadau cenedlaethol, a'r hyn mae eich uned yn wneud mewn ymateb i'w canlyniadau NNAP. Lle mae cyfleoedd am wella, anogir unedau i greu cynllun gweithredu.

Gallwch weld adroddiad llawn y Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol a gwybodaeth am bob ysbyty ar NNAP Online yn.

**www.rcpch.ac.uk/resources/nnap-online-report-data**



# Pwy sy'n cefnogi'r NNAP?

Rydym yn falch o gael cefnogaeth amrywiaeth o sefydliadau. Mae mwy o fanylion isod.

Bliss yw'r elusen yn y DU sy'n gweithio i sicrhau y caiff pob baban a enir yn gynasmerol neu'n sâl yn y DU y cyfle gorau o ran goroesi ac ansawdd bywyd. Mae Bliss yn cefnogi'r Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol.

Am gefnogaeth a gwybodaeth ewch at: **www.bliss.org.uk**

Nod y Cymdeithas Brydeinig Meddygaeth Amenedigol (BAPM) yw gwella safonau gofal amenedigol trwy gefnogi pawb sy'n ymwneud â gofal amenedigol i wneud y mwyaf o'u sgiliau a'u gwybodaeth, cyflwyno a rhannu arferion diogel ac arloesol o'r ansawdd uchaf, cynnal ymchwil, a hyrwyddo anghenion babanod a'u teuluoedd.

Am fwy o wybodaeth ewch at:

**www.bapm.org**

Cymdeithas y Nyrsus i'r Newydd-anedig (NNA) yw'r mudiad cenedlaethol sy'n cynrychioli, cefnogi ac yn dathlu nyrsus i'r newydd-anedig, gan weithio i hyrwyddo nyrsio'r newydd-anedig er lles babanod newydd-anedig a'u teuluoedd ledled y wlad.

Am fwy o wybodaeth, ewch at: **www.nna.org.uk**

# Beth allwch chi wneud nesaf?

- Dewch i wybod mwy am ganlyniadau NNAP eich uned i'r newydd-anedig trwy fynd at erfyn adrodd NNAP Online ar: **www.rcpch. ac.uk/resources/ nnap-online-report-data**
- Gofynnwch i'ch nyrs yn yr uned newydd-anedig am fwy o wybodaeth am ganlyniadau NNAP eich uned a'u cynlluniau ar gyfer gwella.
- Dysgwch fwy am yr hyn mae'r NNAP yn wneud a sut y defnyddir gwybodaeth am eich baban i gefnogi gwelliant trwy fynd at: **www.nnap.rcpch. ac.uk**
- Holwch aelod o staff yr uned i'r newydd-anedig am gefnogaeth.



**Yn glyd yn ei nyth yn yr NICU, ei bol yn llawn o laeth, a'i bysedd bach ynghlwm â'm rhai i. Mae ei theganau yn gwylio drosti, f'arogl i ar ei blanced yn sibrwd, 'mae mam yma, rwyt ti'n ddiogel, mae pobl yn dy garu, a fyddi di fyth yn unig'.**

Llun trwy garedigrwydd April Lyon

**Hoffem ddiolch i'r holl rieni a gofalwyr a rannodd eu siwrne mewn gofal i'r newydd-anedig gyda'r NNAP i gyhoeddi ein hadroddiadau. Caremn hefyd fynegi ein diolch i bob uned, rhwydwaith, a mudiadau sy'n bartneriaid am gefnogi datblygu'r canllaw hwn trwy annog teuluoedd i rannu eu hanesion.**

## Dewch i wybod mwy am yr NNAP

**I ddarganfod mwy am yr archwiliad, ewch at ein gwefan isod neu sganiwch y cod QR gyda'ch ffôn.**

**www.rcpch.ac.uk/NNAP**

**I ddarganfod sut yr ydym yn defnyddio gwyb odaeth am eich baban ac am eich hawliau, gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn:**

**www.rcpch.ac.uk/your-babys-information**

# Geirfa

**Anaf cyn-geni i'r ymenydd** – Gall babanod a enir yn gynnar iawn ddioddef anaf i'r ymenydd, a achosir weithiau gan waedu. Mae canlyniadau'r anafiadau hyn yn amrywio, yn dibynnu pa mor ddrwg yw'r anaf. Mae'r NNAP yn adrodd am ddau fath o anaf i'r ymenydd – ffurfiau mwy difrifol o waedu mewnfentriglaidd (IVH) a lewcomalacia perifentriglaidd systig (cPVL).

**Amenedigol** – Y cyfnod o amser rhwng beichiogi a hyd at flwyddyn wedi esgor.

**Awyru** – Cefnogaeth fecanyddol gydag anadlu i helpu'r baban i fod â lefelau derbyniol o ocsigen yn y gwaed pan na allant gyrraedd hyn. Mae sawl gwahanol fath o awyru, gan gynnwys CPAP.

**Cynamserol** – Baban a enir cyn 37 wythnos o feichiogrwydd (40 wythnos yw'r cyfnod cyflawn).

**Cyn-geni** – Y cyfnod cyn genediageth yn ystod beichiogrwydd neu'n gysylltiedig â hyn.

**Cystic periventricular leukomalacia (cPVL)** – See Preterm brain injury.

**Dysplasia broncoysgyfeiniol (BPD)** – Cyflwr ar yr ysgyfaint sy'n effeithio'n bennaf ar fabanod cynamserol. Mae'r NNAP yn diffinio baban fel un â BPD os yw angen cefnogaeth i anadlu neu ocsigen ychwanegol pan fydd yn cyrraedd 36 wythnos o oedran wedi'i gywiro o ran cyfnod cario. Mae BPD weithiau yn cael ei alw yn 'glefyd cronig yr ysgyfaint' (CLD).

**Enterocolitis sy'n madru (NEC)** – Cyflwr difrifol a all ddigwydd wedi genedigaeth gynamserol. Mae'n achosi llid yn y coluddyn, gan ei gwneud yn anodd bwydo babanod â llaeth, a bydd angen llawdriniaeth weithiau.

**Godro llaeth y fron** – defnyddio pwmp, y dwylo neu'r ddau i gael llaeth o fronnau'r fam. Gellir storio'r llaeth mewn oergell neu rewgell neu ei roi'n uniongyrchol i'r baban.

**Gwaedu mewnfentriglaidd (IVH)** – Gweler anaf cyn-geni i'r ymenydd.

**Lewcomalacia perifentriglaidd systig(cPVL)** – Gweler anaf cyn-geni i'r ymenydd

**Magnesiwm sylffad cynenedigol** – Sylwedd a geir yn naturiol yn y corff ond a roddir fel meddyginiaeth i fenywod sy'n dechrau esgor yn gynamserol, i leihau'r risg o barlys yr ymenydd.

**Newydd-anedig** – Newydd ei eni, neu 28 diwrnod cyntaf bywyd.

**NICU** – Uned Gofal dwys i'r Newydd-anedig – Lle i ofalu am fabanod sydd angen y lefelau uchaf o ofal.

**Oedi cyn clampio llinyn y bogel** – Aros am o leiaf 60 eiliad wedi esgor cyn clampio llinyn y bogel.

**Pediatreg** – Y gangen o feddygaeth sy'n ymdrin â phlant a'u hiechyd.

**Pwysedd positif parhaus ar y llwybr anadlu (CPAP)** – Gweler Awyru.

**Retinopatheg cynamseroldeb (ROP)** – Difrod i gefn y llygad (retina) mewn babanod cynamserol a'r rhai isel iawn

eu pwysau adeg geni. Nid ydym yn deall ROP yn llawn, ond mae'n gysylltiedig â swm yr ocsigen yn y gwaed. Dylai babanod sydd â'r risg hon gael eu gwirio'n rheolaidd am arwyddion o ROP.

**Rowndiau ward** – Adolygiadau rheolaidd, cynlluniedig o'r holl fabanod mewn ward neu ardal, sy'n dwyn i mewn yr holl dîm sy'n gofalu am y cleifion hynny, yn aml yn y bore.

**Steroidau cynenedigol** – Meddyginiaeth a roddir i famau a all esgor yn gynnar i leihau'r risg y caiff y baban broblemau anadlu, gwaedu i'r ymennydd ac oedi datblygiadol.

**Nodyn am derminoleg:**

Yn y canllaw hwn drwyddo draw, defnyddir y term 'mam'. Fodd bynnag, efallai nad pobl yn unig sy'n uniaethu fel menywod all fod eisiau gweld y daflen hon. Dylai'r gofal a gewch fod wedi ei bersonoleiddio, yn gynhwysol ac yn sensitif i'ch anghenion waeth beth yw eich hunaniaeth rhywedd.

# Cyfeiriadau

[1]NICE guideline [NG25]. Preterm labour and birth. Cyfoeswyd ddiwethaf: 10 Mehefin 2022. Ar gael yn: **www.nice.org.uk/guidance/ng25**

[2]Fogarty, M. et al. Delayed vs early umbilical cord clamping for preterm infants: a systematic review and meta-analysis. Am J Obstet Gynecol. 2018 Ion;218(1):1-18.doi: 10.1016/j.ajog.2017.10.231. Ar gael yn: **pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/29097178/**

[3]NHS England. Neonatal Critical Care Service Specification. 2016. Ar gael yn: **www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/group-e/e08/**

[4]Adran Iechyd: Toolkit for high quality neonatal services. 2009. Ar gael yn: **https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20130123200735/http:/www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_107845**

[5]British Association of Perinatal Medicine. Service Standards for Hospitals Providing Neonatal Care (3ydd argraffiad). 2010. Ar gael yn: **www.bapm.org/resources/32-service-standards-for-hospitals-providing-neonatal-care-3rd-edition-2010**

[6]Screening of retinopathy of prematurity (ROP) – canllawiau clinigol ar gael yn: **www.rcpch.ac.uk/resources/screening-retinopathy-prematurity-rop-clinical-guideline**

[7]NICE guideline [NG72]. Developmental follow-up of children and young people born preterm. 2017. Ar gael yn: **www.nice.org.uk/guidance/ng72**



Fy merch a aned wedi 30 wythnos, y fechan yn pwyso ond 1lb 15os.

Llun trwy garedigrwydd Amie Woodford



Fuon ni erioed mor ofnus ond yn teimlo rhyddhad hefyd ei bod yn y lle gorau posib. Dywedodd fy chwaer nad oedd erioed wedi gweld baban mor fach ond mor berffaith a phrydferth.

Llun trwy garedigrwydd Robert a Cassandra Taylor



Dysgu sut i fwydo fy mabi trwy diwb, pan oeddwn i'n teimlo'n barod i wneud, oeth y peth gorau wnes i. Roedd yn peri dychryn i ddechrau - roeddwn i o hyd yn meddwl "ydw i'n gwneud hyn yn iawn?" Ond mae'n eich helpu i ymwneud mwy â'u gofal.

Llun trwy garedigrwydd Lauren Slater a Luke Stevens



Dyma'r tro cyntaf i mi fod groen wrth groen go-iawn gyda 'mechgyn ers rhoi genedigaeth iddyn nhw. Fe wnaeth i mi deimlo mewn gwirionedd mai fi oedd eu mam, ac yr oeddwn yn emosiynol iawn wrth allu dal y ddau ohonyn nhw gyda'i gilydd am y tro cyntaf.

Llun trwy garedigrwydd Katie Trawin



**Heb help, cefnogaeth a gofasl rhyfeddol yr unedau NICU fuasen ni ddim yn deulu fel yr ydym heddiw. Cawsom daith hir gyda pheiriannau awyru, ocsigen llif uchel, a dod adref yn y diwedd gydag ocsigen llif isel. Cawsom gefnogaeth trwy'r amser gan yr ysbyty, cyfeillion, teulu, a chynhaliaeth gan Bliss.**

Llun trwy garedigrwydd Katie Lees a David Rushworth



**Mae'r llun hwn yn ein dangos yn cyffwrdd Ophelia am y tro cyntaf, 6 awr wedi iddi gael ei geni yn pwyso 2lb 6os. Roedd yn anodd i ni ddirnad mor fechan oedd hi.**

Llun trwy garedigrwydd Georgia a Brad Mee-Evens



**Bath cyntaf Evelyn; mae wrth ei bodd yn y dŵr erbyn hyn!**

Llun trwy garedigrwydd Emma a Jeremy Lynde



Yr oeddwn i a fy merch fach Soffia, oedd yn pwyso dau bwys, mewn ICU mewn gwahanol ysbytai am sawl wythnos. Yr oedd milltiroedd lawer yn ein gwahanu, ond yr hyn oedd yn ein cadw'n agos ac yn ddiogel oedd cariad, fideos twymgalon, galwadau ffôn, a diweddariadau gan staff ymroddgar yr unedau gofal critigol. Fe wnaeth hefyd oroesi heintiad RSV drwg, ac fe wnes innau oroesi sepsis. Fe fydd yn frwydr o hyd i'w chael i siarad a cherdded, ond diolch i'r GIG, yr ydym ill dwy yn fyw a chyda'n gilydd.

Llun trwy garedigrwydd Erica Jones



Yn fychan ond yn brwydro.
Ganed i frwydro, ac i ffynnu.

Llun trwy garedigrwydd
Thulasi Nathan



Taith o ddewrder, cryfder a gobaith oedd taith Luca yn yr NICU. Er ei fod yn fach, roedd yn rymus – yn wynebu pob her gyda nerth a phenderfyniad. Gan mai ystyr ei enw yw "yr un sy'n dod â goleuni," fe wireddodd hynny, gan belydru trwy'r dyddiau tywyllaf a dangos i ni rym anhygoel gwytnwch, er mor fychan ydoedd.

Llun trwy garedigrwydd Amy Charlton



Vinnie Duke, yn ddiwrnod oed ac wedi ei eni ar ôl 33 wythnos + 1 diwrnod yn dal bys Dadi ar ôl cael ei fwydo trwy ei diwb.

Llun trwy garedigrwydd Eloise Lambert

Canllaw i grynodeb o adroddiad
**Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol**
ar ddata 2024

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

Comisiynir y Rhaglen Archwilio Newydd-anedig Genedlaethol gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) athelir amdani gan NHS England a Llywodraethau Cymru, yr Alban ac Ynys Manaw fel rhan o'r Archwiliad Clinigol Cenedlaethol a'r Rhaglen Deilliannau Cleifion.

**www.hqip.org.uk/national-programmes**

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
Leading the way in Children's Health

**Royal College of Paediatrics and Child Health**
5-11 Theobalds Road,
Llundain, WC1X 8SH

© 2025 Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP)

Y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. Ymgorfforwyd trwy Siarter Brenhinol a chofrestrwyd fel Elusen yng Nghymru a Lloegr: 1057744 ac yn yr Alban: SCO38299. Swyddfa Gofrestredig 5-11 Theobalds Road, Llundain WC1X 8SH.Noddwraig EHB Y Dywysoges Frenhinol.